

DOLEN Y TAB – 59

11–12 Mehefin 2021

Oedfa Rithiol Sul 13 Mehefin

Myfyrdod gan y Parchg. Morris P. Morris, a chyfraniadau gan Carey a Loreen Williams a Geraint Rees.

Oedfaon yr Wythnosau Nesaf

Mehefin

20 Rhiannon a Gareth Humphreys.

27 Lyn West a'r teulu.

Gorffennaf

4 Y Parchg. Aled Edwards.

11 **Sul y Cyfundeb.** Ymuno'n rhithiol gyda'r oedfa o'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

Hefyd ddydd Sul 13 Mehefin

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Elin Maher, Capel Mynydd Seion, Casnewydd.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Bydd Lisa yn sir y Fflint yn dysgu am un o'r manau mwyaf cysegredig yng Nghymru – ffynnon y Santes Gwenffrewi yn Nhreffynnon.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 15 Mehefin. Os oes gennych unrhyw fater i'w godi, yna cysylltwch â'r Ysgrifennydd:

(gehpengwern@yahoo.co.uk; 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Lun 14 Mehefin fan bellaf.

Diolch, Rowland


Ar ran aelodau'r Tabernacl carem ddiolch yn ddiffuant iawn i Rowland Wynne sydd wedi datgan ei fwrdd i ymddeol fel cydlynnydd Cylch Cadwgan. Ers sefydlu'r Cylch yn 2001, Rowland fu yng ngofal y gweithgareddau a hynny gyda chydweithrediad nifer o gymdeithasau a sefydliadau'r ardal megis Capel y Tabernacl. Cynhaliwyd cyfanswm o 86 o gyfarfodydd dros y cyfnod hwn, ac mae'r rhestr ryfeddol o siaradwyr a dderbyniodd wahoddiad i annerch y Cylch yn adlewyrchiad o ymroddiad Rowland i gyfoethogi'r ardal yn ddiwylliannol.

Dymuniadau Gorau

Yr wythnos ddiwethaf, estynnwyd ein dymuniadau gorau i Beti a Gwilym Treharne. Bryd hynny roedd Gwilym yn yr ysbyty wedi iddo dderbyn llawdriniaeth tra oedd Beti gartref ar ôl cael ei rhuthro i'r ysbyty yn gynharach yn yr wythnos. Bellach, mae Gwilym gartref ac yn gwella'n dda tra mae Beti wedi dychwelyd i'r ysbyty lle bydd yn derbyn triniaeth dros gyfnod o rai wythnosau. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddau.

Cais Llwyddiannus

Cawsom newyddion ardderchog iawn ganol yr wythnos hon, sef bod y cais am grant gan Cadw Cymru'n Daclus i ddatblygu'r ardd gymunedol wedi bod yn llwyddiannus. Maes o law, dan y cynllun 'Lleoedd lleol ar gyfer natur', byddwn yn derbyn amrywiaeth helaeth o blanhigion ac offer ar gyfer datblygu'r ardd i gynhyrchu bwyd. Bydd y pecyn cyfan yn un cynhwysfawr iawn ac yn cynnwys eitemau megis coed ffrwythau, hadau, llwyni, perlysiâu a blodau ynghyd â thŷ gwydr, celfi garddio, bin compostio, casgen ddŵr, ffens a chwt i storio offer. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r cynllun hwn, yn arbennig y criw bore lau am gychwyn y fenter dros ddwy flynedd yn ôl bellach ac sy'n parhau yr un mor frwdfrydig a diwyd heddiw. Estynnwn ein diolch hefyd i Emma Shepherd – aelod o'r gymuned leol – am ei chyingor doeth ac am baratoi'r cais.



**Y Gair a'r Genedl:
canmlwyddiant geni
R. Tudur Jones**

Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan

NOS LUN,
28 MEHEFIN
7:00 P.M.

E-BOSTIWC
UNDEB@ANNIBYNWYR.CYMRU
I DDERBYN LINC

Cofio'r Plant

Un o gyfranwyr rheolaidd **Cenn@d**, wythnosolyn Undeb y Bedyddwyr ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, yw'r Parchg. Aled Davies, Chwilog. Yn y rhifyn cyfredol mae ganddo erthygl am sefyllfa argyfyngus yr eglwysi 'mewn perthynas ag ymestyn allan i blant ac ieuenctid'. O gofio ei fod yn Gyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair, ynghyd â'i gyfrifoldebau fel gweinidog, go brin bod unrhyw un sy'n fwy cymwys i drafod heriau'r maes dyrys hwn. Gan fod ei erthygl mor berthnasol i ni yma yn y Tabernacl, fel llawer iawn o eglwysi ar hyd a lled Cymru, penderfynwyd neilltuo'r dudalen hon i geisio crynhoi rhai o'i ganfyddiadau. Ond byddem yn argymhell yn fawr eich bod yn darllen yr erthygl gyfan ar dudalen flaen rhifyn 15 o **Cenn@d** (www.cennad.cymru).

Y cwestiwn a ofynnir yn nheith ei erthygl yw 'Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn?' Yn y rhan agoriadol disgrifir llwyddiant digamsyniol mwyafrif yr eglwysi i gofleidio'r dechnoleg newydd dros y cyfnod clo, gyda sawl gofalaeth yn awgrymu bod eu cynulleidfaoedd 'rhithiol' yn fwy nag a welwyd yn mynychu'r capeli cyn y pandemig. A pha mor aml y clywyd rhai'n gwneud sylw tebyg i hyn: 'Bellach, mae'n bosib i rai sy'n gaeth i'w haelwydydd, neu sy'n byw cryn bellter o'r capel, neu hyd yn oed y rhai nad oes ganddynt yr amser i ymrwymo i fore cyfan o wisgo a pharatoi, teithio ac eistedd am awr yn y capel, ymuno mewn gwasanaeth. Roedd troi i mewn dros baned am hanner awr yn rhywbeth roeddent yn falch o fedru ei wneud.'

Ond gwahanol iawn fu'r sefyllfa yn ystod yr un cyfnod o safbwynt yr ysgolion Sul ac oedfaon teuluol. Er bod rhai eglwysi wedi mentro cynnal yr ysgol Sul dros Zoom, profiad y rhan fwyaf o'r eglwysi yw iddi fod yn anodd os nad amhosib i gynnal y bwrlwm a'r profiad arferol dros y cyfnod hwn. Sylw Aled Davies am y sefyllfa yw, 'Mewn gwirionedd, daeth y model hwn i stop yn llwyr am gryn gyfnod, ac erbyn hyn mae cryn bryder ynghylch y dyfodol a'r broses o aildechrau'. Mae'n cydnabod nad Covid-19 sy'n bennaf cyfrifol am argyfwng yr ysgolion Sul, gan fod dwy neu dair cenhedlaeth ar goll o'r gynulleidfa erbyn hyn ac mai eithriadau yw'r eglwysi sydd wedi llwyddo i gadw'r cenedlaethau hynny a thrwy hynny hwyluso cynnal gwaith yr ysgol Sul a gweithgareddau i'r ieuenctid.



'Y gwir amdani ydi nad oes gan 95% o blant Cymru bellach unrhyw gysylltiad ag eglwys na chapel nac ysgol Sul'.

Wynebu'r Her

Ond nid neges o anobaith a draethir gan Aled Davies yn ei erthygl. Yn hytrach, yn y rhan olaf, mae'n dangos nad mater o ailgychwyn yr ysgolion Sul y dylid ei wneud yn y cyfnod ôl-bandemig, ond wynebu'r her o fynd ati o ddfri i 'ailsefydlu, recriwtio, ailhyfforddi staff a gwirfoddolwyr, a chwilio eto am y plant rydym wedi colli cyswllt â nhw erbyn hyn'.

Mae'n cloi'r erthygl trwy lunio cyfres o gwestiynau i'w hystyried gan yr eglwysi:

- A oes cynllun i gyflwyno'r newyddion da am Iesu i genhedlaeth newydd o blant, ac a yw hyn yn cael ei drafod gan yr eglwys gyfan neu'n cael ei adael i griw o rieni?
- A yw'r eglwys yn barod i 'fuddsoddi' yn y genhedlaeth hon?
- Oes yna barodrwydd i fentro i fyd newydd?
- Oes yna awydd i gydweithio'n lleol ac ar draws ffiniau enwadol i gynnig y ddarpariaeth orau bosib?

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o **Cenn@d, bydd Aled yn cyflwyno nifer o syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i gynllunio'r dyfodol yn y cyfnod newydd hwn. Gall yr atebion i'r cwestiynau uchod, a'r awgrymiadau ymarferol, fod yn berthnasol iawn i ni yma yn y Tabernacl wrth ddisgwyl i glywed y dyfarniad ar ein cais i gyflogi Swyddog Datblygu. Boed y cais yn llwyddiannus ai peidio, rhaid derbyn bod her anferth o'n blaenau os am adennill tir ymhlith y plant a'r ieuenctid.**

Caffis Eidalaid De Cymru

Mae Canolfan Gartholwg yn trefnu sgwrs dros Zoom am draddodiad y Caffis Eidalaid yn ne Cymru gyda Huw M, a hynny nos Fercher 16 Mehefin i ddechrau am 7.30pm. Mae'r digwyddiad am ddim, a bydd yn para dim mwy nag awr.

Rhaid cofrestru ymlaen llaw trwy ddilyn y ddolen:

<https://bookwhen.com/gartholwg/ev-s01o-20210616193000>

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21

'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin
gyda

JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, e-bostiwch:
cristnogaeth21@gmail.com
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu, a doleri ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100
Tâl ymuno: £8 y ddyfais



Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledau newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.